

Jeremy Miles AS/MS
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref JMEWL/00489/22

Jack Sargeant AS
Cadeirydd - Y Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

30 Mawrth 2022

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 03 Mawrth 2022, mewn perthynas â chysylltedd rhyngrwyd i ysgolion.

Rwyf wedi ymrwymo'n llwyr i gynnal cymorth i ysgolion, drwy [Raglen Hwb](#), i sicrhau bod gan bob ysgol a gynhelir fynediad at seilwaith a chysylltedd rhyngrwyd effeithiol, o safon uchel i alluogi mynediad teg at offer ac adnoddau ar-lein y gellir eu cyrchu unrhyw bryd, unrhyw le.

Darperir cysylltedd band eang i ysgolion a gynhelir yng Nghymru ar draws [rhwydwaith Prosiect Cydgasglu Band Eang y Sector Cyhoeddus \(PSBA\)](#), gyda buddsoddiad sylweddol yn cael ei wneud o flwyddyn i flwyddyn i wella cadernid, effeithlonrwydd a diogelwch y rhwydwaith. Rydym yn gweithio mewn partneriaeth gyda thîm PSBA i sicrhau bod y cysylltedd cyflym ar gyfer ysgolion Cymru yn sefydlog, yn perfformio'n dda ac yn esblygu i ddiwallu anghenion digidol ac uchelgeisiau ysgolion.

Mae rhwydwaith PSBA yn darparu cysylltedd i ysgolion yn seiliedig ar angen, sy'n cael ei addasu drwy ddeialog â phob awdurdod lleol mewn ymateb i'r galw, yn hytrach na gosod dull gweithredu cyffredinol sy'n addas i bawb.

Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am sicrhau bod gan eu hysgolion a gynhelir lefelau priodol o gysylltedd â'r rhyngrwyd. Mae'r wybodaeth ddiweddaraf yn dangos, yn seiliedig ar broffiliau defnydd presennol, mai ychydig iawn o ysgolion cynradd sydd angen gwasanaeth 1Gbps ond, ar hyn o bryd, mae gan bob ysgol gynradd ddull syml o gynyddu eu capasiti presennol yn sylweddol. Os bydd y galw'n fwy na'u capasiti presennol, mae prosesau ar y gweill i helpu i hwyluso cysylltiadau y gellir eu huwchraddio'n gyflym. Byddai cynnydd posibl yn lled band pob cysylltedd rhyngrwyd i 1Gbps yn gofyn am gyllid sylweddol yn rhwydwaith craidd PSBA. Byddai angen i unrhyw symud oddi wrth fodel darpariaeth sy'n seiliedig ar y galw ystyried y costau a'r buddiannu cysylltiedig yn ofalus.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae Gweinidogion Cymru eisoes wedi buddsoddi dros £45 miliwn i ddarparu cysylltedd cyflym iawn i bob ysgol a gynhelir yng Nghymru. Ers 2019, mae pob ysgol a gynhelir yng Nghymru wedi gallu manteisio ar gyflymder band eang cyflym iawn. Mae gallu rhwydwaith PSBA i wella'n barhaus eisoes wedi cefnogi 177 o ysgolion uwchradd i uwchraddio i wasanaeth 1Gbps i fodloni gofynion cynyddol penodol heb fawr o fuddsoddiad gan yr awdurdod lleol.

Yn ogystal â buddsoddi yn y cysylltiadau band eang i ysgolion, aeth Llywodraeth Cymru ati hefyd i gefnogi datblygu gwasanaeth hidlo cynnwys y we cenedlaethol i wella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y rhwydwaith, sy'n galluogi awdurdodau lleol i ddiogelu eu dysgwyr rhag cynnwys niweidiol a rhoi'r rhyddid iddynt ddysgu heb gyfyngiadau. Hyd yma, mae 21 o awdurdodau lleol eisoes yn elwa ar y gwasanaeth hollbwysig hwn.


At hynny, cydweithiodd Llywodraeth Cymru â phob un o'r 22 awdurdod lleol i ddatblygu'r [Safonau Digidol Addysg](#). Mae'r safonau'n rhoi arweiniad ar sut y dylai ysgolion ddiogelu eu hamgylchedd digidol at y dyfodol er mwyn diwallu anghenion cwricwlwm ysgol sy'n canolbwyntio mwy ar ddigidol.

Er mwyn helpu i fynd i'r afael ag unrhyw gyfyngiadau lleol o ran bodloni'r safonau, mae Gweinidogion Cymru wedi buddsoddi £107 miliwn i ddiogelu seilwaith technoleg addysg at y dyfodol ym mhob ysgol a gynhelir ledled Cymru. Mae'r buddsoddiad hwn wedi creu sylfeini cenedlaethol sy'n gallu cefnogi a chyflawni trawsnewidiad gwirioneddol i'r sector addysg a helpu i sicrhau bod digidol wrth wraidd y Cwricwlwm i Gymru.

Yn y ddeiseb gan Charles Green, tynnodd sylw at y ffaith efallai nad yw rhai ysgolion yn elwa ar fand eang cyflym iawn. Os ydych chi'n ymwybodol o unrhyw faterion penodol, byddwn yn ddiolchgar pe gallech chi ddarparu unrhyw wybodaeth ategol i James.thomas23@gov.wales fel y gall fy swyddogion ymchwilio ymhellach.

Gallaf eich sicrhau fy mod i'n parhau'n gwbl ymrwymedig i Dechnoleg Addysg yng Nghymru ac y byddaf yn cyhoeddi buddsoddiad pellach yn fuan. Bydd y buddsoddiad hwn yn helpu i fanteisio ymhellach ar y manteision trawsnewidiol y gall digidol a thechnoleg eu cyflwyno i addysg ac yn parhau i sicrhau bod gan ysgolion yr offer digidol sydd eu hangen arnynt i gyflwyno ac ategu'r Cwricwlwm i Gymru.

Yn gywir,



Jeremy Miles AS/MS

Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language